



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe**

Penodi Aelod Annibynnol

Dyddiad cau: 10/08/2021 am 4pm



**The Commissioner for
Public Appointments**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	2-5
Atodiad A: Rôl Cadeirydd / Aelod	5-8
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	9
Atodiad C: Y broses ddethol	11-12

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Gwneud cais

Diolch ichi am fynegi diddordeb yn swydd aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae hwn yn gyfle gwych i rannu eich doniau a'ch arbenigedd er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ar draws Bae Abertawe. Yn ogystal â chwarae rhan lawn a gweithredol yn y gwaith o lywodraethu'r Bwrdd Iechyd, byddwch yn dod â phrofiad arbenigol a enillwyd ar lefel uwch mewn sefydliad mawr mewn o leiaf un o'r meysydd canlynol: cyllid, datblygu sefydliadol/pobl, gwasanaethau sy'n wynebu defnyddwyr, ystadau a gwybodaeth fusnes. Mae'r Atodiadau amgaeedig yn rhoi manylion am rôl yr Aelod Annibynnol a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma [Penodiadau Cyhoeddus - \(tal.net\)](http://tal.net).

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag ar gyfer aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yn y cwestiynau canlynol. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Cyfeiriadau

Rhowch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol) y byddwn yn cysylltu â hwy ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

Amserlen fras

Dyddiad cau: 10/08/2021

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Creu rhestr fer: 16/08/2021
Cyfweliadau: 27/09/2021

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu mewn modd sy'n analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol o gymhwysedd ar gyfer y rôl ac yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwmo i gyflogaeth a datblygiad gyrfya pobl anabl. Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bost PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r tîm Penodiadau Cyhoeddus cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl aelod annibynnol, cysylltwch ag Emma Woollett, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rhif ffôn: (01639) 683379 E-bost: Emma.Woollett@wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, efallai yr hoffech droi at wefan y Bwrdd Iechyd:

[Hafan - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe \(gig.cymru\)](http://gig.cymru)

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i wneud cais, cysylltwch â

penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i

www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Penodi Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Disgrifiad o'r rôl

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Fel aelod o'r Bwrdd, byddwch yn:

- **Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu**, o safbwynt clinigol a chorfforaethol. Disgwylir i chi allu cynnig barn annibynnol i'r Bwrdd ar faterion perfformiad, penodiadau allweddol, edrych tua'r dyfodol, ac atebolrwydd;
- **Cyfrannu at ddod â gweledigaeth strategol y Bwrdd yn fyw**, yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad a'ch gwybodaeth yn y gorffennol, a'ch gallu i sefyll gam yn ôl oddi wrth y rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd;
- **Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn**, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau sy'n gydgysylltiedig, yn gadarn ac yn dryloyw;
- **Dod, ymhen amser, i ddeall gwaith y sefydliad yn llawn** drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i weithredu'n effeithiol
- **Gweithio'n agos gyda chyrrff cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol eraill** a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofawyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i siapio, datblygu a gwella gwasanaethau;
- **Cefnogi'r Cadeirydd i ddatblygu bwrdd unedol effeithiol.**

Manyleb y person

Mae'n **hanfodol** bod Aelod Annibynnol yn dangos y priodoleddau canlynol:-

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol, gan ddefnyddio dim mwy na 2 dudalen A4.

1. Rhowch fanylion eich profiad o arwain a datblygu sefydliad ar lefel uwch-fwrdd neu rôl gyfatebol, a'r meysydd perthnasol o arbenigedd penodol y byddech yn eu cynnig i'r rôl hon.
2. Drwy enghraifft benodol, dangoswch eich profiad blaenorol ym maes cyllid neu reolaeth fewnol ac o ddwyn eraill i gyfrif tra'n cynnal perthynas dda.
3. Disgrifiwch y ffyrdd yr ydych wedi cyfrannu at ddatblygu a chyflawni strategaeth, naill ai mewn rôl weithredol â chyfrifoldeb neu mewn rôl anweithredol sy'n goruchwylio.
4. Dangoswch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion iechyd yng nghydestun Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar lefel cymuned, awdurdod lleol a chenedlaethol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

5. Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau rhyngpersonol i ddangos eich effaith personol a'ch gallu i weithio mewn tîm.

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad perthnasol a diweddar mewn o leiaf un o'r meysydd canlynol, a hwnnw wedi'i feithrin ar lefel uwch mewn sefydliad mawr: cyllid, datblygu sefydliadol/pobl, gwasanaethau sy'n wynebu defnyddwyr, ystadau a gwybodaeth fusnes.
- Profiad o gyfrannu'n effeithiol i waith bwrdd a dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i gefnogi datblygiad bwrdd unedol;
- Profiad o oruchwylio'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth yn effeithiol a dealltwriaeth o pryd a sut i ofyn am fwy o fanylion heb golli safbwynt aelod annibynnol (anweithredol).

Priodoleddau Personol a Sgiliau

Bydd angen i chi allu dangos y canlynol:-

- Y gallu i ddadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ynghyd â'r gallu i fod yn glir a chryno, a'r gallu i feithrin cysylltiad â phobl ar bob lefel;

Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos:-

- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt.
- Dealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan', ynghyd ag ymrwymiad iddynt.

Ceir dolen at y gwerthoedd hyn isod.

[Hafan - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe \(gig.cymru\)](http://gig.cymru)

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y priodoleddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni manyleb y person.

Bydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn falch o drafod y meini prawf penodol ar gyfer y rôl gydag ymgeiswyr, ar gais. Mae manylion cyswllt i'w cael ar dudalen 5.

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Baglan, Port Talbot
Ymrwymiad Amser: 4 diwrnod y mis

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Hyd y penodiad:	penodiad cychwynnol am gyfnod o <u>hyd at 4</u> blynedd, fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar gytundeb y Gweinidog
Tâl cydnabyddiaeth:	£15,936 y flwyddyn, ynghyd â chostau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Mae'r gofynion cymhwysedd ar gyfer aelodau Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru wedi'u pennu yn Atodlen 2 i Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau (Cymru) 2009. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at hwn i sicrhau eu bod yn gymwys i wneud cais am y rôl. Mae'r Atodlen berthasol ar gael drwy'r ddolen isod

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/schedule/2/made>

Nid yw ymgeiswyr yn gymwys ychwaith i ymgeisio ar gyfer y rôl os ydynt:

Yn aelod ar hyn o bryd o fwrdd corff gwasanaeth iechyd arall yng Nghymru:

- ac na fydd y rôl honno wedi dod i ben cyn iddynt gychwyn yn y swydd hon os cânt eu penodi, neu
- os nad ydynt yn bwriadu ymddiswyddo o'r rol honno os cânt eu penodi.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made>

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd, a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Bydd eich penodiad yn amodol ar broses o wirio geiradaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, a gwiriadau perthnasol eraill, er enghraifft gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwiriad o'ch cymhwysedd i ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr. Bydd y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae mynychu Rhaglen Gynefino Aelodau Annibynnol y GIG yn orfodol a bydd yn ofynnol ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Gwrthdaro buddiannau

Pan fyddwch yn gwneud cais, gofynnir ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddioli'n llwyddiannus i gyfweiliad Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi arddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at God Ymarfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen hon i'w gweld yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies>

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Cefndir

Dyma gyfle cyffrous i gyfrannu at wasanaethau iechyd lleol, sy'n dilyn trywydd strategol GIG Cymru.

Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (a elwid gynt yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) ei greu ar 1 Ebrill 2019, ar ôl i'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael ei drosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i'r bwrdd newydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gwasanaethu poblogaeth o tua 390,000 o bobl ac mae ganddo gyllideb flynyddol o dros £1 biliwn. Mae'n cyflogi tua 12,500 o staff - 70% ohonynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol i gleifion. Mae'n cynnig gofal integredig i gleifion, ac yn darparu gwasanaethau gofal trydyddol, aciwt, canolraddol, iechyd meddwl, cymunedol a sylfaenol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

At hynny, mae'r Bwrdd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol, gan gynnwys llawdriniaeth ar y galon, a llawdriniaeth blastig ac ar gyfer llosgiadau i gleifion yn Ne-orllewin Lloegr, gwasanaethau iechyd meddwl fforensig i Dde Cymru a gwasanaethau anabledau dysgu o Abertawe i Gaerdydd, yn ogystal ag ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Darperir Gwasanaethau Gofal Sylfaenol drwy ymarferwyr cyffredinol, optegwyr, fferyllwyr cymunedol a deintyddion sydd i gyd yn gweithredu fel contractwyr annibynnol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rheoli Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer carchar Abertawe.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe dri ysbyty aciwt sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau:

- Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot;
- Ysbyty Singleton yn Abertawe;
- Ysbyty Treforys yn Abertawe.

Mae hefyd nifer o ganolfannau adnoddau gofal sylfaenol mewn ysbytai cymunedol llai eu maint sy'n darparu gwasanaethau clinigol pwysig i breswylwyr y tu allan i'r tri prif ysbyty aciwt.

Mae gennym strategaeth sefydliadol uchelgeisiol sy'n cyd-fynd yn agos â chyd-destun polisi a deddfwriaeth flaengar Cymru, gan gynnwys newid i atal a gofal sylfaenol, integreiddio â gwasanaethau cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Bwrdd wedi meithrin partneriaethau cadarn â byrddau iechyd cyfagos, awdurdodau lleol, y trydydd sector ac eraill. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys Prifysgol Abertawe. Rydym yn gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu diwylliant sy'n

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

cael ei yrru gan ymchwil ac addysg, gan gydweithio'n agos â Choleg Meddygaeth, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd a Sefydliad Gwyddor Bywyd y Brifysgol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rhan o brosiect cyffrous ar hyn o bryd gyda Phrifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sef Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd. Dyma Iechyd a gwyddoniaeth yn gweithio gyda'i gilydd, i wella Iechyd, cyfoeth a llesiant pobl De-orllewin Cymru.

Rôl y Bwrdd

Mae'r tair rôl allweddol y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn dangos arweinyddiaeth trwyddynt yn ei sefydliad fel a ganlyn:-

- Llunio strategaeth
- Sicrhau atebolrwydd trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy
- Siapio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygu strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrsol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gael cyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Emma Woollett, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a bydd hefyd yn cynnwys Ian Owen, Llywodraeth Cymru a Michael Hearty, Aelod Cyswllt Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel yr Aelod Annibynnol o'r Panel.

Cynhelir panel rhanddeiliaid yn y bore, cyn y cyfweliad.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar restr hir, cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod w/c 16/08/2021 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad yn ystod w/c 27/09/2021.

Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau o bell drwy Microsoft Teams.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd**, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Byddwch yn cael neges e-bost o ganolbenodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol er mwyn asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a bennwyd ar gyfer y rôl.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi ym marn y panel yn cael eu hargymhell i Weinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Bydd bwch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Cedwir mewn cysylltiad â'r ymgeiswyr a gafodd eu cyf-weld, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os byddwch yn aflwyddiannus yn y cyfweiliad, cewch eich hysbysu drwy ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.